

Prosiectau iechyd a lles gwartheg bîff a defaid

ar y rhwydwaith arddangos



FARMING
connect

cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Rhagair

Heb os, rheoli clefydau a sicrhau'r safonau uchaf o ran iechyd a lles anifeiliaid yw'r dulliau mwyaf effeithiol o gynnal neu wella cynhyrchiant da byw. Mae sicrhau bod anifeiliaid fferm yn iach trwy gyfrwng y dulliau hwsmona, yr adeiladau, y maeth a'r ymyriadau milfeddygol gorau yn gwella ffrwythlondeb, cyfanswm y cynnyrch, hirhoedledd ac ymwrthedd i glefydau. Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, gallwch chi ddisgwyl lleihau costau a chynyddu elw.



Mae'r llyfryn hwn yn cynnig trosolwg cryno o nifer o brosiectau iechyd a lles anifeiliaid sydd wedi cael eu cynnal yn nifer fechan o safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r cynllun hwn yn unigryw yn y DU o ran nifer y safleoedd sy'n rhan ohono ac ehangder y prosiectau a'r arbrofion a gynhaliwyd, ac mae'r llyfryn yn dangos sut mae ffermwyr sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun wedi elwa trwy gyflwyno systemau gwell a mwy effeithlon sydd bellach yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd da byw yn gyffredinol. Mae'r pynciau a'r materion sy'n cael sylw yn amrywio o reoli parasitiaid a chloffni i wella bioddiogelwch i gynorthwyo gyda rheoli clefydau.

Mae'r holl ffermwyr y byddwch yn darllen amdanynt wedi cael eu cynorthwyo i 'gyflawni mwy o lai'. Wrth gael cymorth ac arweiniad rhai o brif arbenigwyr sectorau amaethyddol y DU, maent wedi cynyddu allbynnau a lleihau mewnbynnau. Gan ddysgu o brofiad - ynglŷn â beth sy'n llwyddo a beth sydd ddim - mae pob un wedi datblygu systemau cig coch cynaliadwy sydd â phwyslais mawr ar les a wnaiff eu galluogi i gystadlu mewn marchnad fyd-eang yn ystod y blynyddoedd sy'n dod a'u helpu i ddiogelu dyfodol busnesau eu ffermydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I gael diweddariadau am brosiectau ac arbrofion rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio, ewch i'n gwefan, www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Mae'r prosiectau hefyd yn dangos pa mor bwysig yw cydweithio â'ch milfeddyg i sicrhau y ceir cyngor wedi'i deilwra'n benodol i'ch da byw a'ch system ffermio. Mae datblygu cynllun iechyd anifeiliaid ar y cyd â'ch milfeddyg yn rhan hanfodol o'r gwaith o reoli unrhyw fenter da byw. Yn ychwanegol, cyfeiriwch at y codau ymarfer lles anifeiliaid sydd ar gael yn www.llyw.cymru/lles-anifeiliaid

Dewi Hughes

Rheolwr Datblygu Technegol, Cyswllt Ffermio
Gwanwyn 2020

Cyswllt Ffermio – eich helpu chi i yrru eich busnes yn ei flaen

Gall busnesau cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau cymorth, canllawiau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio.

Mae nifer o'r gwasanaethau wedi eu hariannu'n llawn, tra bod eraill yn cael eu hariannu hyd at 80%.

Ewch i'n gwefan i weld sut allwch chi:

- gael budd o gefnogaeth fusnes cymhorthdaledig, wedi ei deilwra i'ch anghenion busnes
- meincnodi eich perfformiad a gweithio tuag at gynnydd a thwf
- datblygu eich sgiliau fel rhan o'n rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus/dysgu gydol oes
- cael gwybodaeth am y datblygiadau technolegol diweddaraf trwy ddatblygiadau yn y diwydiant a'r prosiectau ymchwil diweddaraf diweddaraf
- rhannu arfer da ac elwa o wybodaeth ffermwyr eraill, arbenigwyr yn y diwydiant ac ymchwil academaidd
- cael eich ysbrydoli gan syniadau newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon a blaengar o weithio



Buddion wyna yn yr awyr agored o safbwynt iechyd

Cyfnod wyna yw un o'r cyfnodau mwyaf dwys o'r flwyddyn o ran adnoddau i ffermwyr defaid. Gall wyna'r ddiadell gyfan neu ran ohoni yn yr awyr agored helpu pan fo lle'n brin mewn siediau a lle bo clefydau wedi cronni ymhlith diadelloedd sy'n wyna dan do. Fodd bynnag, yn achos diadelloedd sy'n wyna yn yr awyr agored, mae'n rhaid sicrhau bod digon o lafur ar gael i allu goruchwylio'n rheolaidd a darparu lloches rhag effeithiau tywydd garw. Mae safle ffocws Penwern, ger Llambod, yn cadw diadell o 250 o famogiaid ar 64ha ac roeddent yn dymuno ymchwilio a fyddai wyna yn yr awyr agored yn opsiwn iddynt hwy.

Un ffocws allweddol oedd symud y ddiadell i system costau a llafur isel, i barhau i ffermio'n broffidiol ac ennill incwm oddi ar y fferm ar yr un pryd. Sefydlwyd system â chostau isel, gyda phwyslais ar iechyd y ddiadell a'r defnydd o laswellt.

Gweithgareddau'r prosiect

- Wyna yn yr awyr agored yn lle o dan do.
- Ffocws penodol ar fynd i'r afael â chloffni a materion yn ymwneud ag erthyly.
- Sefydlu system rheoli glaswellt, yn cynhyrchu glaswellt a silwair o safon uchel.

Deilliannau'r prosiect

- Mwy o bwyslais ar gyflawni targedau, a monitro perfformiad yn rheolaidd.
- Cydnabod gwerth casglu data.
- Defnyddio arbenigedd technegol - milfeddyg, ymgynghorydd pori, defnyddio mesurydd plât, cynnal profion gwaed a samplu silwair.

Mynd i'r afael â chloffni trwy gyfrwng y 'Cynllun 5 Pwynt'

- 1 Difa'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n aml; hanfodol ym mlwyddyn gyntaf strategaeth rheoli cloffni.
- 2 Osgoi bod yn agored i facteria, yn enwedig mewn ardaloedd trin defaid a phorthi (dan do ac yn yr awyr agored).
- 3 Gofyn am gyngor gan filfeddyg cyn gynted ag y gwelir cloffni.
- 4 Mynd i'r afael â phroblemau cyn integreiddio anifeiliaid yn y ddiadell.
- 5 Brechu fel rhan o raglen frechu ar gyfer y ddiadell gyfan (gan gynnwys hyrddod).

Rhannwch y mamogiaid yn grwpiau pori - bydd hynny'n helpu i ddiwallu'r angen am faeth gan ddefnyddio glaswellt a silwair yn unig.

Canlyniadau'r prosiect

	Dan do	Yn yr awyr agored
Erthyly	4 (7 oen)	1 (2 oen)
Wyn marw-anedig o famogiaid yn eu llawn dwf	18	0
Clwy'r cymalau	20	9
Oriau llafur wyna	210	87
Costau gwellt	£350	£0
Costau cynhyrchu silwair £30/t (pwysau ffres)	£750	£0
Costau dwysfwyd	£1,250	£0

Arbedwyd **123** awr trwy gydol y flwyddyn



Arbedion blynyddol gwerth **£4,510** yn sgil lleihau costau ac incwm ychwanegol



Iechyd a chynhyrchiant

- ↓ Erthyliadau
- ↓ Wyn marw-anedig
- ↓ Clwy'r cymalau

Arbedion a wnaed:

- ✓ Angen llai o wellt
- ✓ Defnyddio cyn lleied o ddwysfwyd â phosibl
- ✓ Lleihad mewn gofynion llafur
- ✓ Mwy o wyn i'w pesgi a'u gwerthu
- ✓ Glaswellt a silwair o safon

Mynd i'r afael â chloffni mewn systemau defaid a bîff



Mae cloffni yn gyflwr poenus i'r anifail ac yn un costus i'r cynhyrchwr. Mae cloffni yn destun pryder difrifol o safbwynt lles, ac yn ogystal â hynny, bydd anifeiliaid cloff yn ennill llai o bwysau, yn cymryd mwy o amser i'w pesgi ac yn ychwanegu at gostau cynhyrchu oherwydd cynnydd o ran yr angen am lafur, porthiant a lle mewn llociau.

Mae nifer o bethau yn achosi cloffni ymhlith defaid, yn cynnwys dermatitis digidol defeidiog heintus (CODD), crawniadau yn y droed, clwy'r traed, dermatitis rhyng-ddigidol (OID), gronyndyfiant, sgaldiad, carnau cragennog a chlefyd llinell wen.

Mae clwy'r traed yn gyfrifol am **90%** o'r achosion o gloffni ymhlith defaid yn y DU



Mae'n bosibl bod CODD yn effeithio ar rhwng **35%** a **53%** o ddiadelloedd erbyn hyn a gall effeithio ar hyd at **50%** o'r ddiadell ar unrhyw adeg



Cloffni yn y ddiadell

Fe wnaeth prosiect yn safle arddangos Rhiwgriafol ger Machynlleth ganolbwyntio ar weithredu'r cynllun cloffni 5 pwynt. Yn 2016, roedd cloffni yn broblem sylweddol, a chafodd 15% o'r mamogiaid eu heffeithio.

Roedd y camau gweithredu yn cynnwys

- Canfod pa ganran o'r ddiadell oedd yn gloff.
- Nodi mai CODD oedd yn achos.



Gweithredu'r cynllun 5 pwynt yn Rhiwgriafol

- **Difa.** Cafodd anifeiliaid oedd yn cloffi'n rheolaidd eu difa.
- **Osgoi.** Caiff anifeiliaid sydd wedi'u heffeithio eu cadw ar wahân oddi wrth y brif ddiadell i atal trosglwyddo'r clefyd. Caiff porfeydd ble mae defaid sydd wedi'u heffeithio wedi pori eu gorffwys am 14 diwrnod cyn ailgyflwyno anifeiliaid. Caiff amgylchiadau mwdlyd a thamp sy'n helpu bacteria i ymledu eu hosgoi trwy symud defaid i dir pori ffres.
- **Trin.** Cafodd cynllun triniaeth ei ddatblygu gyda chymorth eu milfeddyg sy'n cynnwys defnyddio fformalin mewn baddonau traed a

rhoi pigiaidau gwrthfotigau (Betamox a Tylan). Caiff triniaethau eu hailadrodd wythnos yn ddiweddarach os bydd angen hynny.

- **Cwarantîn.** Caiff anifeiliaid cloff eu tynnu o'r brif ddiadell ac ni fyddent yn dychwelyd nes byddant yn holliaich. Cafodd mesurau cwarantîn sylw hefyd fel rhan o'r cynllun iechyd i osgoi dod ag unrhyw glefydau i mewn i'r fferm.
- **Brechu.** Yn dilyn cyngor milfeddygol, mae brechlyn Footvax wedi cael ei ddefnyddio i frechu pob mamog a bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol i frechu pob oen benyw a gaiff ei chadw.

Trwy gymryd rhan yn y rhaglen Bywyd heb Gloffi, fe wnaeth Rhiwgriafol a safle arddangos arall, sef Tynyberth, ger Abaty Cwm Hir, brofi gostyngiadau cyflym mewn cloffi ymhlith defaid.



Perfformiad mamogiaid o ganlyniad i weithredu'r cynllun 5 pwynt dros gyfnod gaeaf 2016-2017

	Canlyniadau Sganio	Sgôr Cyflwr Corff Mamog 1-5
Rhiwgriafol	Cynnydd o 10%	Cynnydd o 0.5
Tynyberth	Cynnydd o 15%	Cynnydd o 0.5



Cloffni yn y fuches bîff

Ceir nifer o achosion posibl o gloffni mewn gwartheg bîff, ond mae'r rhai mwyaf cyffredin yn deillio o heintiau, e.e. traed aflan a dermatitis digidol, neu anafiadau. Mae Cyswllt Ffermio wedi codi ymwybyddiaeth o gloffni mewn buchesi bîff trwy gyfrwng cyfarfodydd â ffermwyr ac erthyglau technegol.

Fe wnaeth prosiect a gynhaliwyd yn fferm Gop yn Sir y Fflint ddangos sut oedd defnyddio EID i fonitro cynnydd pwysau byw yn amlygu effaith materion iechyd megis cloffni. Ynghyd â hwsmonaeth dda ac archwiliadau dyddiol, fe wnaeth hyn arwain at ganfod clefydau yn brydlon.

Canlyniadau'r prosiect

Mae'r data a gasglwyd drwy'r EID a'r glorian bwysu wedi rhoi'r canlyniadau canlynol:

Pe bai anifail yn gloff am 4 wythnos, byddai'n colli cyflwr



Er bod gwartheg cloff wedi cael gwerth **£46** o borthiant, byddai angen porthiant ychwanegol gwerth **£46** a 4 wythnos ychwanegol i'w hadfer i'r cyflwr a ddymunir



Fe wnaeth cloffni achosi wyth wythnos ychwanegol o gostau gwerth **£82** yn yr uned, heb unrhyw gynnydd mewn pwysau




Yn achos unrhyw wartheg y nodwyd eu bod yn gloff, ni chafwyd unrhyw elw o gwbl neu fe wnaeth yr elw leihau yn sylweddol





Negeseuon allweddol

Mae achosion penodol o gloffni yn cael eu dylanwadu gan ffactorau risg sy'n perthyn i un neu ragor o'r tri categori hyn. Mae nodi pa un o'r meysydd hyn yw'r un mwyaf arwyddocaol yn rhan bwysig o gynllun iechyd buches o safbwynt cloffni ar y fferm, fel y gellir eu datrys trwy gyfrwng cynllun gweithredu cadarn a ddylai gael ei lunio trwy ymgynghori â milfeddyg y fferm.



Mynd i'r afael â ffactorau cloffni mewn gwartheg

Amgylchedd

Mae'r amgylchedd ble caiff gwartheg eu cadw yn bwysig o ran lleihau risg dermatitis digidol, traed aflan ac anafiadau cyhyrysgerbydol. Mae'n rhaid iddo fod yn lân ac yn sych, ac mae'n rhaid cael llawr sy'n lleihau'r risg o lithro a chael anafiadau.

Dwysedd stocio yw'r ffactor pwysicaf un o safbwynt glanweithdra a'r risg o haint.

Canllawiau ar gyfer dwysedd stocio gwartheg mewn llociau â lloriau delltrog a rhai â deunydd gorwedd

Pwysau byw (kg)	Targed lle a ganiateir fesul anifail mewn llociau â lloriau delltrog		Targed lle a ganiateir fesul anifail mewn llociau â deunydd gorwedd	
	Arwynebedd y lloc (m ² /anifail)	Nifer mewn lloc 10 x 20 troedfedd (3m x 6.1m)	Arwynebedd y lloc (m ² /anifail)	Nifer mewn lloc 10 x 20 troedfedd (3m x 6.1m)
300	1.5	12	3.4	5
400	1.8	10	3.8	4
500	2.1	9	4.2	4
600	2.4	8	4.5	4



Cyfforddusrwydd y fuwch

- Mae diffyg cyfforddusrwydd ar gyfer gwartheg yn ffactor risg yn achos anafiadau cyhyrsgerberbydol, crawniadau ym mlaen y traed a chymalau septig.
- Dylai cyfleusterau trin, cludo a chadw stoc dan do fod wedi'u dylunio'n briodol i leihau'r risg o anafiadau a bwlio.
- Ni ddylid gorstocio llociau, a dylid sicrhau bod digon o le ar gael yn y cafn porthi i alluogi'r holl anifeiliaid yn y grŵp i fwyta ar yr un pryd, oherwydd bydd gwthio a throi'n sydyn yn cynyddu'r grymoedd ar y traed.
- Mae gosod rwyber ar loriau delltrog neu fannau ble mae llawer o wartheg yn cerdded yn lleihau'r risg o gloffni a chymalau yn chwyddo.

Maeth

Mae maeth yn effeithio ar yr holl achosion cyffredin o gloffni a welir mewn gwartheg biff. Asidosis yw'r prif risg i wartheg sy'n cael eu pesgi, oherwydd mae hyn yn achosi nifer o effeithiau negyddol ar iechyd carnau.

I leihau risg asidosis, dylid sicrhau cydbwysedd a chysondeb yn y diet, oherwydd gall unrhyw newidiadau sydyn yn y diet niweidio cydbwysedd y microbau yn y rwmen. Bydd hyn yn neilltuol o bwysig wrth gyflwyno gwartheg i ddietau sy'n darparu llawer iawn o egni - bydd yn rhaid gwneud hyn yn araf i alluogi i'r anifail addasu, neu fel arall, fe wnaiff asidosis ddigwydd. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd yn hanfodol cynnwys byfferau asid cryf yn y diet er mwyn gwrthbwysu'r risg.

Mae cyfanrwydd y croen yn bwysig er mwyn lleihau risg dermatitis digidol a thraed aflan, ac felly, mae'n bwysig sicrhau bod y diet yn gytbwys ac yn darparu'r lefelau priodol o elfennau hybrin sy'n ofynnol i sicrhau cyfanrwydd y croen a'r carnau.

Mae calsiwm a ffosfforws yn elfennau allweddol o'r ysgerbwdd ac mae sicrhau bod lefelau digonol a chyfraddau priodol ohonynt yn y diet yn allweddol, yn enwedig mewn anifeiliaid sy'n tyfu'n gyflym.

Rheoli niwmonia mewn lloi ifanc



Bydd niwmonia fel arfer yn digwydd mewn lloi ifanc (rhwng pum wythnos a phum mis oed) sy'n cael eu cadw dan do, naill ai'n cael eu magu ar gyfer buchesi llaeth neu mewn systemau gwartheg bíff. Mae tymheredd amgylcheddol isel, lefelau uchel o leithder, awyru gwael a drafftiau sy'n chwythu'n uniongyrchol ar y lloi oll yn ffactorau sy'n cyfrannu.

Efallai bod gwahaniaethau mewn bridiau o ran tueddiad lloi i ddal niwmonia, a gall hyn a statws colostrwm ac adeg diddyfnu effeithio ar statws imiwnedd y llo.

Gall ffactorau sy'n peri straen megis cymysgu grwpiau, symud ac amgylchiadau gwael mewn adeiladau effeithio ar statws imiwnedd hefyd.

Lloi ifanc yn Llindir

Bydd y busnes magu lloi dan do dwys yn Llindir, safle ffocws yn sir Conwy, yn magu 1,400 o loi bob blwyddyn. Bydd y lloi yn cyrraedd yr uned yn 3-6 wythnos oed, a cânt eu magu nes byddant yn 180kg, yna cânt eu symud i uned pesgi bíff. Roedd nifer yr achosion o niwmonia yn uchel gyda 20% o'r lloi angen triniaeth. Gan gydweithio â'u milfeddyg, fe wnaeth y fferm ymchwilio i ddifrifoldeb y broblem niwmonia trwy sgorio'r lloi yn unigol a mesur cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG).

Mae hyn wedi caniatáu i'r ffermwr a'r milfeddyg ddiweddarau cynllun iechyd buches y fferm i gynnwys ymateb rhagweithiol i lefelau niwmonia.

Cost niwmonia: **£13,020 y flwyddyn**
Ar sail **280** o loi yn cael eu heintio



Enghraifft o system sgorio

Asesir chwe arwydd clinigol. Os bydd sgôr o 5 neu ragor, bydd angen sylw i'r llo.

1. Tagu = 2 bwynt
2. Rhediad o'r llygaid = 2 bwynt
3. Twymyn ($> 39.2^{\circ}\text{C}$) = 2 bwynt
4. Anadlu anarferol = 2 bwynt
5. Rhediad o'r trwyn = 4 pwynt
6. Clustiau llipa neu ben cam = 5 pwynt

Ymgorffori arferion da yn Llindir

- Darparu haen gyson o awyr iach ym mhob rhan o'r sied – ychydig uwchlaw uchder y lloi
- Lleihau nifer y lloi ym mhob lloc os yw dwysedd stocio yn broblem
- Cynnal amgylchedd glân a sych a sicrhau bod digonedd o ddeunydd gorwedd trwchus
- Sicrhau bod manau o amgylch cafnau yn lân ac yn sych bob amser
- Ystyried gosod lloriau delltog i helpu llaeth sydd wedi'i golli ac wrin i ddraenio

Deilliannau'r prosiect

- Newidiadau i'r amgylchedd dan do.
- Nodwyd bod awyriad, dwysedd stocio a draenio yn ffactorau risg allweddol.
- Yn draddodiadol, roedd Llindir yn defnyddio deunydd gorwedd trwchus, ond sefydlwyd arbrawf i gyflwyno haenau plastig delltog o amgylch y cafnau awtomatig i alluogi wrin a llaeth wedi'i golli i ddraenio a lleihau crynodiadau o amonia.
- Cafodd dwysedd stocio ei leihau i sicrhau bod gan bob llo arwynebedd o 2.8m² gyda deunydd gorwedd ac o leiaf 18m³ o ofod o ran aer yr un i helpu i leihau crynodiad bacteria.

- Diffyg awyriad oedd y prif anhawster oherwydd agosrwydd adeiladau cyfagos a chyfeiriad arferol y gwynt.
- Argymhellwyd gosod system awyru pwysedd bwrpasol i sicrhau bod yr aer yn cael ei newid yn llwyr o leiaf 6-8 gwaith bob awr.

Cynnydd o **0.2kg** fesul llo o ran cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG)



Gostyngiad yn y defnydd o wrthfotigau



Gostyngiad yng nghyfradd marwolaeth lloi



Defnyddio FEC ac egwyddorion SCOPS i wella perfformiad diadell

Mae triniaethau meddygol yn rhan hanfodol o becyn iechyd ffermwr da byw a gall sicrhau y caiff y rhain eu defnyddio i sicrhau'r perfformiad gorau arwain at arbedion sylweddol o ran costau a chynnydd mewn allbwn. Cydweithio â milfeddyg y fferm i ddatblygu cynlluniau iechyd effeithiol yw'r cam cyntaf, a thu hwnt i hynny, gall ymgorffori adnoddau monitro ychwanegol gynyddu'r buddion. Fe wnaeth tair fferm, sef Hendre Ifan Goch, Pen-y-bont ar Ogwr; Rhosgoch, Aberystwyth a Tyn y Pant, y Trallwng, gymryd rhan mewn prosiect parasitiaid a gynhaliwyd gan Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio ar feichiau llyngyr yn eu diadelloedd. Fe wnaeth pob fferm gynnwys profion cyfrif wyau ysgarthol (FEC) fel rhan o'u harferion rheoli i weld a allent addasu i'w defnyddio fel mater o drefn, fel adnodd i wella'r gwaith o reoli baich llyngyr. Fe wnaethant hefyd sicrhau eu bod yn rhoi egwyddorion Rheoli Parasitiaid mewn Defaid yn Gynaliadwy (SCOPS) ar waith.

Amcanion y prosiect

1. Lleihau dibyniaeth ar driniaethau llyngyr tra'n cynnal perfformiad yr ŵyn
2. Defnyddio FEC i alluogi penderfyniadau deallus
3. Cymryd agwedd ataliol tuag at leihau baich llyngyr
4. Rhoi'r egwyddorion SCOPS ar waith.

Canlyniadau'r prosiect

Cynnydd ym mhwysau ŵyn ar adeg diddyfnu:

Ar ôl monitro a rhoi triniaeth, fe wnaeth Hendre Ifan Goch ennill 100g ychwanegol o bwysau byw dyddiol mewn ŵyn hyd at 12 wythnos oed, a'u diddyfnu pan yn pwyso 34kg.

Fe wnaeth ŵyn yn Rhosgoch a gafodd ddôs melyn gyrraedd pwysau uwch na'r rhai oedd wedi cael eu dosio â'r anthelmintigau clir a gwyn. Roedd amheuan bod ymwrthedd yn bresennol a phrofwyd hynny maes o law.

Cynnydd o ran enillion pwysau byw dyddiol ŵyn

Fe wnaeth ŵyn dyfu'n dda hyd at pan oeddent yn wyth wythnos oed yn Hendre Ifan Goch, gan gyflawni cynnydd pwysau byw dyddiol cyfartalog o 290g, gyda rhai yn cyflawni 300g o gynnydd pwysau byw dyddiol.

Rhybudd cynnar ynglŷn â materion yn ymwneud ag ymwrthedd


- Canfuwyd ymwrthedd i driniaeth rhag llyngyr yr iau, Triclabendazole, yn Hendre Ifan Goch. Cafodd mamogiaid beichiog eu cadw o dan do am 10 wythnos a'u trin â Closantel i glirio heintiad llyngyr yr iau.
- Fe wnaeth monitro FEC a phroffil ymwrthedd i anthelmintigau yn fferm Tyn y Pant ddatgelu ymwrthedd i ddôs melyn, ac roedd cyffuriau anthelmintig gwyn, clir a moxidectin yn fwy effeithiol. Fe wnaeth y canlyniadau hyn alluogi defnydd wedi'i dargedu o'r driniaeth wrthlyngyrol priodol, gan sicrhau'r cyfraddau twf gorau yn yr ŵyn.

Canlyniadau profion ymwrthedd yn Rhosgoch, Gorffennaf 2017

Triniaeth	Dechrau FEC			Diwedd FEC			% Gostyngiad	
	Dyddiad	EPG Strongyle	EPG Nem.	Dyddiad	EPG Strongyle	EPG Nem.	Strongyle	Nematodirus
1 BZ	01/07/2017	525	245	15/07/2017	315	0	40	100
2 LV	01/07/2017	700	420	08/07/2017	0	35	100	92
3 ML	01/07/2017	350	140	15/07/2017	210	0	40	100

Fe wnaeth profion amlygu ymwrthedd i ddosys gwyn (benzimidazole) a chllir (macrocylic lactone) yn Rhosgoch. Profwyd dôs melyn (levamisole) a gwelwyd fod hynny'n effeithiol.

Rheoli lefelau haint llyngyr yr iau ar eich fferm



- Dylai rheoli llyngyr yr iau fod yn rhan o strategaeth ehangach i reoli da byw.
- Dylid cydlynu camau gweithredu rhwng y ffermwyr a'r milfeddyg.
- Mae angen mynd i'r afael â llyngyr yr iau ar y cyd â blaenoriaethau eraill: maeth, sgorio cyflwr corff, pori a rheoli porthiant.
- Defnyddio monitro rheolaidd i roi'r statws cyfredol o ran baich parasitiaid.
- Teilwra mesurau i anghenion ffermydd unigol, boed hynny o ran triniaeth neu reolaeth.

Pa mor bwysig yw llyngyr y rwmen?

Mae pwysigrwydd clinigol llyngyr y rwmen yn bwnc sy'n cael ei drafod yn y DU ar hyn o bryd, ond mae'n sylweddol bwysig o safbwynt diagnostig. Mae llyngyr yr iau a llyngyr y rwmen yn aml yn cael eu canfod fel heintiau ar y cyd a gan fod eu hwyau'n debyg, gallai hynny arwain at gamddiagnosis a/neu gamddehongli canlyniadau triniaeth llyngyr yr iau. Mae diagnosis cywir yn bwysig gan mai nifer fach yn unig o driniaethau sy'n gallu lladd llyngyr y rwmen.

Trechu llyngyr y rwmn a'r iau ar y fferm gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg



Mae deall sut mae nodweddion caeau yn effeithio ar feichiau parasitiaid yn rhan o ddulliau effeithiol o reoli llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn ar y fferm.


Fe wnaeth pum safle ffocws, sef, Aberkin, Cricieth; Brwynog, Caergybi; Gelli Goll, y Bont-faen; Hafod, Llandysul a Tynyberth, Abaty Cwm Hir, ganfod presenoldeb llyngyr yr iau yn eu gwartheg neu eu defaid. Fe wnaeth y ffermwyr gydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, ac roeddent yn awyddus i ganfod lefel yr haint mewn caeau unigol er mwyn addasu a theilwra eu dull o reoli pori. Byddai hyn yn lleihau'r risg o haint ac yn cyfrannu at ddull rhagweithiol o drin llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn.

Canlyniadau'r prosiect

- Canfuwyd heintiau llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn ymhlith poblogaethau o falwod sy'n lletya llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn mewn sawl cynefin yn ffermydd Gelli Goll a Hafod.
- Ni chanfuwyd llyngyr yr iau na llyngyr y rwmn yn niadell Brwynog, ac roedd hynny'n cyfateb i'r prinder malwod sy'n lletya llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn a ganfuwyd mewn cynefinoedd yno. Roedd trefn o driniaethau wedi'u targedu a gwaith draenio yn cyfrannu ar dorri cylch atgenhedlu'r malwod.
- Canfuwyd llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn ymhlith da byw yn Aberkin. Fodd bynnag, canfuwyd nifer isel o falwod lletyol. Efallai bod y lleoliad ger yr arfordir wedi cyfrannu at hynny.
- Roedd y cynefinoedd a samplwyd yn fferm Tynyberth yn wlyb ac yn gorsiog ac roedd dŵr yn llifo drwyddynt. Fodd bynnag, roedd nifer yr achosion o llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn (nid nifer y malwod) yn isel, sy'n awgrymu nad yw cynefinoedd ble tueddir i ganfod malwod yn cynnwys malwod lletyol sydd wedi'u heintio â llyngyr yr iau a llyngyr y rwmn o reidrwydd.

Buddion nodi cynefinoedd malwod

Canlyniadau mapio yn Hafod



- Mae'n cynorthwyo i fapio rhaglen rheoli pori effeithiol ar draws y fferm.
- Bydd yn helpu i reoli heintiau os ceir achosion o hynny.
- Dylid cynnal a chadw pibellau a chafnau dŵr i leihau bygythiadau a achosir gan byllau wedi'u creu gan bibellau sy'n gollwng.

- Os yw cynefinoedd malwod wedi'u cyfyngu i fannau penodol, gellid ffensiō'r manau hynny neu beidio eu pori yn ystod cyfnodau o risg uchel.
- Dylid gwneud gwaith draenio mewn manau hynod o wlyb – mae hynny'n ddrud yn y tymor byr ond mae'n ddull rheoli ataliol gwyth.

Dylid osgoi pori'r canlynol:

- Priddoedd gwlyb/asidig
- Glannau afonydd neu ffosydd
- Ymylon pyllau bychan a nentydd
- Pyllau o amgylch cafnau dŵr
- Mannau mwdlyd



Gofynnwch am gyngor gan filfeddyd wrth benderfynu rhoi triniaethau a mesurwch ymwrthedd trwy gyfrwng profion cyfrif wyau ysgarthol (FEC) a phroffion labordy.



Cyswllt Ffermio

-  www.llyw.cymru/cyswlltffermio
-  **08456 000 813**
-  farmingconnect@menterabusnes.co.uk
-  [Facebook.com/CyswlltFfermio](https://www.facebook.com/CyswlltFfermio)
-  [@CyswlltFfermio](https://twitter.com/CyswlltFfermio)